

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 19 Medi 2017 Kath Thomas – Dipwrwy Glerc
Amser: 09.00 0300 200 6565
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

Briff yr Aelodau

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

2 Deisebau newydd

2.1 P-05-769 Canolfan Trawma Difrifol De Cymru – Caerdydd ac Abertawe
(Tudalennau 39 – 43)

2.2 P-05-770 Ailagor gorsaf Drenau Crymlyn
(Tudalennau 44 – 54)

2.3 P-05-772 Na i Gylch Haearn arfaethedig Castell y Fflint
(Tudalennau 55 – 58)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Deisebau a gafodd eu gohirio o'r cyfarfod ar 11 Gorffennaf 2017

Economi a'r Seilwaith

3.1 P-05-692 Adeiladu Cofeb Mamieithoedd Rhyngwladol ym Mae Caerdydd
(Tudalennau 59 – 61)

3.2 P-05-737 Achubwch ein bws
(Tudalennau 62 – 63)

3.3 P-05-716 Cludiant am Ddim ar y Trenau i Ddisgyblion Ysgol gyda Threnau
Arriva Cymru
(Tudalennau 64 – 66)



3.4 P-04-688 Gorsaf Bêr Tata Steel ym Mhort Talbot
(Tudalennau 67 – 69)

3.5 P-05-690 Arwynebu Ffordd A40 Rhaglan-Y Fenni
(Tudalennau 70 – 71)

3.6 P-05-740 Deiseb i Warchod Ein Stryd Fawr
(Tudalennau 72 – 77)

Llywodraeth Leol

3.7 P-05-726 Rhoi Rhyddhad Ardrethi i Awdurdodau Lleol ar gyfer Cyfleusterau Hamdden a Diwylliannol
(Tudalennau 78 – 81)

Gymunedau a Phlant

3.8 P-05-734 Gwahardd Codi Ffioedd Asiant Gosod ar Denantiaid
(Tudalennau 82 – 83)

3.9 P-05-751 Cydnabod achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant
(Tudalennau 84 – 87)

3.10 P-05-711 Sicrhau bod Anghenion Pobl Anabl am Addasiadau i Dai yn cael eu Diwallu'n Ddigonol
(Tudalennau 88 – 89)

Diweddariad diwethaf

Prif Weinidog

3.11 P-05-712 – Byddai Adran Ewrop o fewn Llywodraeth Cymru yn Sicrhau Llais Clir, Strategol ac Atebol i Gymru yn y Trafodaethau Parhaus
(Tudalennau 90 – 95)

Economi a'r Seilwaith

3.12 P-04-667 Cylchfan ar gyfer Cyffordd yr A477A4075
(Tudalennau 96 – 99)

3.13 P-05-701 Gwelliannau i Ddiogelwch y Ffordd ar Hyd Cefnffordd yr A487 Rhwng Aberteifi ac Aberystwyth, i Gynnwys Mannau Pasio
(Tudalennau 100 – 101)

3.14 P-05-714 Cynnwys Gorsaf ar Gyfer Mynachdy a Thal-y-bont fel Rhan o Unrhyw Gynnig ar Gyfer Metro Caerdydd
(Tudalennau 102 – 111)

3.15 P-05-738 Deiseb Gyhoeddus ar gyfer Ffordd Osgoi i Ddinas Powys
(Tudalennau 112 – 117)

**3.16 P-05-755 Galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod yr A48 ger Trelales,
Broadlands a Merthyr Mawr yn ddiogel i holl ddefnyddwyr y ffyrdd ac i
gerddwyr**
(Tudalennau 118 – 120)

Iechyd

**3.17 P-05-732 Amseroedd Aros Annerbyniol ar gyfer Cleifion y GIG yn Adran
Damweiniau ac Achosion Brys WrecsamYsbyty Wrecsam Maelor**
(Tudalennau 121 – 124)

3.18 P-05-736- Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Mwy Hygyrch
(Tudalennau 125 – 128)

3.19 P-05-754 Diffyg cymorth i blant ag anableddau mewn argyfwng
(Tudalennau 129 – 131)

Amgylchedd a Materion Gwledig

**3.20 P-05-766 Dylid Gwneud Opsiwn Fegan yn Orfodol Mewn Ffreuturiau
Cyhoeddus**
(Tudalennau 132 – 133)

**3.21 P-05-750 Ar gyfer eitemau untro: cyflwyno System Dychwelyd Ernes ar gyfer
cynwysyddion diodydd a sicrhau y gellir compostio cynwysyddion bwyd
cyflym a'r offer sy'n gysylltiedig â hwy**
(Tudalennau 134 – 137)

Addysg

3.22 P-05-760 Atal TGAU Cymraeg gorfodol
(Tudalennau 138 – 141)

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o weddill y cyfarfod**

**5 Ystyried yr adroddiad ddrafft – P-05-710 Sicrhau y gall Pobl
Anabl Ddefnyddio Trafnidiaeth Gyhoeddus Pryd Bynnag y Bo'i
Hangen Arnynty**

(Tudalennau 142 – 176)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

P-05-769 Canolfan Trawma Difrifol De Cymru – Caerdydd ac Abertawe

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Hywel Ap John Griffiths, ar ôl casglu 69 o lofnodion ar-lein.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu canolfannau trawma difrifol yn Ysbyty Treforys, Abertawe yn ogystal ag Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd yn hytrach na dim ond ar un safle.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyfor Meirionnydd
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Rhif y ddeiseb: [P-05-769](#)

Teitl y ddeiseb: **Canolfan Trawma Difrifol De Cymru – Caerdydd ac Abertawe**

Geiriad y ddeiseb: Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu canolfannau trawma difrifol yn Ysbyty Treforys, Abertawe yn ogystal ag Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd yn hytrach na dim ond ar un safle.

Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu gwasanaethau trawma yng Nghymru. Fel y nodwyd yn ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i'r ddeiseb, mae Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru wedi bod yn datblygu cynigion ar gyfer rhwydwaith trawma difrifol, gan gynnwys canolfan trawma difrifol, i gwmpasu de Cymru, gorllewin Cymru a de Powys (y Canolfan Trawma Difrifol yn Ysbyty Athrofaol Brenhinol Stoke sy'n darparu gwasanaeth ar gyfer cleifion yng ngogledd Cymru).

Mae Ysbyty Treforys Abertawe ac Ysbyty Athrofaol Cymru Caerdydd ill dau wedi cyflwyno cynlluniau ar gyfer canolfan trawma difrifol. Ers hynny, [adroddwyd](#) bod y Gydweithrediaeth wedi argymhell, yn seiliedig ar adroddiad panel arbenigol annibynnol, mai yng Nghaerdydd y dylai'r ganolfan trawma difrifol fod, ac mai uned drawma fwy a ddylai fod gan Ysbyty Treforys yn Abertawe, a hynny yn rhan o rwydwaith trawma difrifol ehangach. Bydd byrddau iechyd yn ystyried yr argymhellion yr hydref hwn. Deellir y bydd y cynigion yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

Cefndir

Defnyddir y term 'trawma difrifol' i ddisgrifio anafiadau difrifol ac, yn aml, anafiadau lluosog a allai rhoi bywyd yn y fantol.

Mae tystiolaeth bod canlyniadau yn sylweddol well i gleifion trawma difrifol sy'n cael eu trin mewn canolfan sy'n arbenigo mewn trawma difrifol. Tîm amlddisgyblaeth o glinigwyr sy'n staffio'r canolfannau hyn, ac mae ganddynt y cyfleusterau arbenigol sydd eu hangen i drin cleifion ac arnynt anafiadau difrifol, lluosog.

Mae'r [adroddiad interim](#) o fis Gorffennaf 2017 ar yr adolygiad o iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn pwysleisio bod canoli cyfleusterau ar gyfer rhai mathau o ofal arbenigol – fel bod arbenigedd ac offer yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol – yn gwella ansawdd gofal.

The evidence is strongest for stroke, trauma, and heart attack services, even if this means patients travelling further to receive care.

Mae [Best Configuration of Hospital Services for Wales – Quality and Safety](#) (adroddiad Longley), a gyhoeddwyd yn 2012, yn trafod y dystiolaeth parthed canolfannau trawma difrifol arbenigol (gw. tudalennau 12 – 19), gan gyfeirio at waith a wnaed gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon a nododd y canlynol:

- mae datganoli'r gofal i ganolfannau trawma arbenigol rhanbarthol yn gostwng cyfradd y marwolaethau o 25% a hyd yr arhosiad o 4 diwrnod;
- mae canolfannau sy'n delio â swmp mawr o achosion trawma yn gostwng cyfradd marwolaethau o anafiadau difrifol hyd at 50%;
- yn anad dim, yr amser a gymer rhwng yr anaf yn digwydd a chael y llawdriniaeth derfynol sy'n penderfynu'r canlyniad mewn trawma difrifol (nid yr amser i gyrraedd yr adran argyfwng agosaf);
- mae cleifion trawma difrifol sy'n cael eu trin yn y lle cyntaf mewn ysbytai lleol yn 1.5 hyd at 5 gwaith mwy tebygol o farw na chleifion a gludir yn uniongyrchol i ganolfannau trawma;
- **gallai un ganolfan fel arfer wasanaethau poblogaeth o 3–4 miliwn.** [Sef, yn fras, cynifer â phoblogaeth Cymru].

Yn 2012, cafodd gwasanaethau trawma difrifol ledled Lloegr eu hailgyflunio yn rhwydweithiau trawma rhanbarthol yn seiliedig ar ganolfannau trawma difrifol dynodedig. Yn 2016, ar ôl i ofal trawma yn Lloegr gael ei ranbartholi, canfu [astudiaeth](#) fod yr holl ddangosyddion ansawdd gofal wedi gwella. Er nad oedd gwahaniaeth amlwg o ran marwolaethau, mae tystiolaeth o wledydd eraill yn awgrymu y gallai buddion pellach ddod yn amlwg ar ôl i'r system trawma aeddfedu rhywfaint.

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-769
Ein cyf/Our ref VG/01970/17

David John Rowlands AM
Chair, Petitions Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

18 August 2017

Dear David,

Thank you for your letter of 31 July as chair of the Petitions Committee about Petition P-05-769 South Wales Major Trauma Centre - Cardiff and Swansea.

The NHS Wales Health Collaborative has been developing proposals for the establishment of a major trauma network, including a major trauma centre, to cover the region of south Wales, west Wales and south Powys.

The Collaborative convened an independent panel, comprising representatives from across major trauma services, to assist in identifying a preferred option for the location and development of a major trauma centre. Panel members were invited on the basis of their national and international reputations as experts in trauma care and the development of trauma systems. All have been involved in the development of regional major trauma systems.

The panel's report has been submitted to the Collaborative, which intends to make recommendations for consideration by the individual health boards by early autumn. It will then be for those health boards to make decisions through their own internal governance mechanisms. I understand there is likely to be a period of public consultation and engagement on any proposals for the major trauma network, before any final decisions are made.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 42

As I have set out, there is an evidence-led NHS process on the major trauma network and centre. I cannot, and will not, get drawn into commenting on this petition, as it is possible that I will have to determine a final decision and commenting may prejudice my position. Any decision I may make would potentially be reviewable in the courts.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive style with a large initial 'V' and a long, sweeping tail on the 'g'.

Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Eitem 2.2

P-05-770 Ailagor gorsaf Drenau Crymlyn

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Michael Davies, ar ôl casglu 208 o lofnodion ar-lein.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ailagor gorsaf drenau Crymlyn. Rydym yn credu y gallai Crymlyn fod yn ganolfan drafnidiaeth gyhoeddus bwysig. Byddai ei lleoliad allweddol yn cynnig pwynt cyfnewid ar gyfer sawl dull teithio rhwng gwasanaethau rheilffordd llinell Glynebwy ar ei newydd wedd a phrif lwybr y bysiau cyflym rhanbarthol drwy ganol y cymoedd. Mae safle'r orsaf yn gyfleus ar gyfer y rhwydwaith priffyrdd, ac mae ganddo faes parcio mawr a lle i fysiau. Mae modd cyrraedd llwybrau cerdded a beicio o'r safle. Nodwn fod y llygredd aer ar un o'r strydoedd yng Nghrymlyn gyda'r gwaethaf y tu allan i Lundain a bod angen gwella cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus er mwyn gwella iechyd y cyhoedd. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i asesu'r achos dros ailagor gorsaf drenau yng Nghrymlyn ac i ystyried ei hychwanegu at y rhestr flaenoriaethau nesaf o gynigion ar gyfer gorsafydd newydd yng Nghymru.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Islwyn
- Dwyrain De Cymru

Deiseb: Ailagor Gorsaf Drenau Crymlyn

Y Pwyllgor Deisebau | 19 Medi 2017
Petitions Committee | 19 September 2017

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: [P-05-770](#)

Teitl y ddeiseb: Ailagor Gorsaf Drenau Crymlyn

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ailagor gorsaf drenau Crymlyn. Rydym yn credu y gallai Crymlyn fod yn ganolfan drafnidiaeth gyhoeddus bwysig. Byddai ei lleoliad allweddol yn cynnig pwynt cyfnewid ar gyfer sawl dull teithio rhwng gwasanaethau rheilffordd llinell Glynebwy ar ei newydd wedd a phrif lwybr y bysiau cyflym rhanbarthol drwy ganol y cymoedd. Mae safle'r orsaf yn gyfleus ar gyfer y rhwydwaith priffyrdd, ac mae ganddo faes parcio mawr a lle i fysiau. Mae modd cyrraedd llwybrau cerdded a beicio o'r safle. Nodwn fod y llygredd aer ar un o'r strydoedd yng Nghrymlyn gyda'r gwaethaf y tu allan i Lundain a bod angen gwella cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus er mwyn gwella iechyd y cyhoedd. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i asesu'r achos dros ailagor gorsaf drenau yng Nghrymlyn ac i ystyried ei hychwanegu at y rhestr flaenoriaethau nesaf o gynigion ar gyfer gorsafoedd newydd yng Nghymru.

Cefndir

Isadeiledd a gwasanaethau rheilffyrdd

Maes nas datganolwyd yw buddsoddi yn seilwaith y rheilffyrdd; mae'r prif bwerau a dyletswyddau statudol yn perthyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth. Fodd bynnag, o dan *Ddeddf Rheilffyrdd 2005* ('Deddf 2005') mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i fuddsoddi yn seilwaith y rheilffyrdd, gan gynnwys gorsafoedd.

Ar hyn o bryd, nid yw masnachfreiniau rheilffyrdd yn faes datganoledig. Serch hynny, cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw rheoli masnachfaint Cymru a Gororau o ddydd i ddydd, gan gynnwys cyllido gwasanaethau yng Nghymru ("gwasanaethau Cymru'n unig"), a'r

gwasanaethau hynny sy'n dechrau neu'n terfynu yng Nghymru ("gwasanaethau ar gyfer Cymru").

Yn ogystal â buddsoddi mewn seilwaith, mae Deddf 2005 yn galluogi i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn gwaith i wella gwasanaethau rheilffyrdd. Gallai hyn gynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag amserlennu i drenau alw yng ngorsaf Crymlyn. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod ychwanegu at y gorsafoedd y bydd trenau yn galw ynddynt yn cael effaith ar amserlen ac amseroedd teithio y gwasanaethau hynny.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn trafod datganoli pwerau gweithredol ar gyfer caffael y fasnachfaint rheilffordd nesaf i Gymru o 2018. Disgwylir i bwerau gael eu datganoli yn hydref 2017 ac mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn ar y gwaith o [gaffael masnachfaint nesaf Cymru a'r Gororau](#).

Gorsaf Crymlyn

Mae Crymlyn ar linell Rheilffordd Cwm Ebwy rhwng gorsaf Glynebwy a Chaerdydd Canolog. Ar hyn o bryd, mae Trenau Arriva Cymru yn cynnal gwasanaeth bob awr ar y llinell hon. Caewyd gorsaf Lefel Isel Crymlyn yn y 1960au.

Yn 2010, cynhaliodd Capita Symonds asesiad [Canllawiau Gwerthuso Cludiant Cymru](#) (WelTAG) o *Ebbw Valley Railway, Future Phases* ar gyfer y Gynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWTA) sydd bellach wedi'i ddiddymu. Ystyriodd yr asesiad orsafoedd newydd ar gyfer Cwm, Crymlyn, Abertyleri, Pye Corner a gorllewin Casnewydd. Casglodd Capita Symonds fod y gymhareb budd a chost ar gyfer gorsaf newydd yng Nghrymlyn yn gymedrol, a'i bod yn perfformio yn dda yn yr arfarniad WelTAG yn gyffredinol, wrth gynnwys gorsaf newydd yn Pye Corner a gwasanaethau ychwanegol, ac y dylid bwrw ymlaen â hi.

O ran ehangu cyrhaeddiad y rhwydwaith rheilffyrdd, mewn [adroddiad gan Jacobs ar strategaeth rheilffyrdd SEWTA](#), a gyhoeddwyd yn 2013, nodwyd:

There are few quick wins in terms of new stations that could be built on existing lines in the SEWTA area. Options are Pye Corner and / or Crumlin and Ebbw Vale Town on the Ebbw Vale Line.

Mae [Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig](#) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn darparu ar gyfer diogelu'r tir ar gyfer gorsaf newydd yng Nghrymlyn, gan nodi, "Byddai sefydlu'r orsaf hon o fudd i'r prif safle cyflogaeth yn Oakdale".

Bargen Ddinesig a Metro Caerdydd

Sefydlwyd [Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas–Ranbarth Caerdydd](#) (CCRTA) o dan Fargen Ddinesig Prifddinas–Ranbarth Caerdydd i gydlynu cynllunio trafndiaeth a buddsoddi yn rhanbarth y Fargen Ddinesig (yn cynnwys Crymlyn). Mae'r Awdurdod "wedi mynd ati i ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Strategol", a bydd yn "adolygu ac yn blaenoriaethu cynlluniau drafft presennol yng ngoleuni'r Fargen Ddinesig". Mae hefyd "yn

gweithredu o ddifri' â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru ynglŷn â chyd-ddylunio cynlluniau Metro De-ddwyrain Cymru”.

Rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus integredig arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cymoedd a Chaerdydd yw'r Metro. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei fod yn rhaglen hirdymor sy'n cael ei ddatblygu fel y gellir ei ymestyn yn raddol. Yn ei [phamffled Metro](#) diweddaraf, dywed Llywodraeth Cymru y bydd Metro Cam 2 (2017–23) yn “canolbwyntio ar foderneiddio craidd Trenau'r Cymoedd a rhwydwaith rheilffyrdd ehangach De Cymru”. Er nad yw llinell Glynebwy ymhlith llinellau craidd y Cymoedd, mae'r pamffled yn nodi os na chaiff ei chyflwyno yn ystod Cam 2, gellir ystyried nifer o orsafoedd rheilffyrdd trwm ychwanegol [gan gynnwys Crymlyn].

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Gorsafoedd newydd

Mae [Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol](#) (CCTC) Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i ddatblygu meini prawf asesu a chan ddefnyddio'r meini prawf hynny, rhestr wedi'i blaenoriaethu o orsafoedd newydd i'w hystyried ymhellach (mewn perthynas â sicrhau cyllid gan y diwydiant rheilffyrdd). Rhestrir Crymlyn yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol fel orsaf a asesir fel rhan o'r broses hon (Cyfeirnod CCTC RI10). O ran cyflwyno Cam 2 o'r Metro, mae gorsaf Crymlyn wedi'i chynnwys ar restr o welliannau seilwaith arfaethedig a fydd yn destun “astudiaethau ymarferoldeb, datblygu achos busnes a darparu ateb/opsiwn sy'n cael ei argymhell” rhwng 2017 a 2020 (Cyfeirnod CCTC CCRM10f).

Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi ac Isadeiledd [at holl Aelodau'r Cynulliad ar 26 Ebrill 2017](#) (PDF 231KB) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- dull tair cam Llywodraeth Cymru ar gyfer blaenoriaethu cynigion ar gyfer gorsafoedd trenau newydd yng Nghymru; a
- rhestr wedi'i blaenoriaethu o orsafoedd a fydd yn destun asesiad pellach o dan gamau 2 a 3.

Ni chynhwyswyd gorsaf Crymlyn ar rhestr gorsafoedd blaenoriaeth yr Ysgrifennydd Cabinet.

Yn dilyn cwestiwn i'r Prif Weinidog ar y [broses ar gyfer asesu cynigion ar gyfer gorsafoedd trenau newydd](#) ar 16 Mai 2017, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at holl Aelodau'r Cynulliad [yn rhoi diweddariad pellach](#) ar 6 Mehefin 2017 yn nodi:

Y gorsafoedd rhanbarthol a gafodd eu dewis ar gyfer eu hasesu [yng Ngham 2] yw'r rheini gafodd y sgoriau uchaf ar draws yr holl feini prawf [WelTAG a Llesiant].

Yn ei lythyr at y Cadeirydd ynglŷn â'r ddeiseb hon, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru, yn niffyg cyfrifoldeb am gyllido buddsoddi yn seilwaith y rheilffyrdd, yn defnyddio ei phwerau i hwyluso'r gwaith o ddatblygu gorsafoedd trenau er mwyn “cryfhau

gallu cynigion ar gyfer gorsafoedd i elwa ar alwad am geisiadau am gyllid [Llywodraeth y DU]”. Ynghylch gorsaf Crymlyn, dywedodd:

Whilst working on Stage 3 we will also assess the next batch of stations on the Stage 1 list. We anticipate commencing this work in early 2018. Our initial assessment is that Crumlin Station scored well against the transport case criteria. As the assessment process is an on-going and iterative one, Crumlin will eventually be assessed along with other stations on our list.

Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn dilyn ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i gwestiwn ar fuddsoddiad yn rhwydwaith y rheilffyrdd yn y [Cyfarfod Llawn ar 21 Mehefin 2017](#), dywedodd Steffan Lewis:

Mae Ysgrifennydd y Cabinet, fel y crybwyllwyd eisoes, wedi cyhoeddi rhestr o'i flaenoriaethau ar gyfer adeiladu gorsafoedd newydd, ac roeddwn yn synnu nad oedd Crymlyn ymhlith y gorsafoedd blaenoriaethol hynny, o ystyried y lleoliad allweddol y mae'n ei ddarparu ar gyfer cyfnewidfa amlfoddol a'i botensial fel canolbwynt beicio a cherdded pellter hir hefyd-yn yr ardal, fel y gŵyr Ysgrifennydd y Cabinet, sy'n cynnwys y stryd sydd â'r llygredd aer gwaethaf yn unrhyw le yn y DU y tu allan i Lundain.

Rwy'n deall bod ei adnoddau'n gyfyngedig a bod nifer o ffactorau'n cystadlu, ond efallai nad yw'r meini prawf presennol ar gyfer pennu gorsafoedd blaenoriaethol mor hollgynhwysol ag y gallent fod.

Wrth ymateb i ddatganiad ar bolisi a deddfwriaeth o ran yr amgylchedd hanesyddol yn y [Cyfarfod Llawn ar 4 Gorffennaf 2017](#), dywedodd Rhianon Passmore y byddai'n hoffi gweld “yr orsaf reilffordd yn cael ei hailgyflwyno yng Nghrymlyn, er mwyn agor ein cymunedau yn y Cymoedd”. Wrth drafod gorsaf tref Glynebwy a'r estyniad llinell gysylltiedig yn y [Cyfarfod Llawn ar 5 Gorffennaf 2017](#), dywedodd Rhianon Passmore:

Mae'r orsaf yng Nglynebwy yn dangos sut y gellir ymestyn y rheilffordd yn rhan o ryngwyneb trafnidiaeth strategol, cyfannol ac amlfoddol [...].

Rwy'n gadarn iawn fy marn y dylai Crymlyn gael gorsaf reilffordd rhyw ddydd.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-770
Ein cyf/Our ref KS/02791/17

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

18 Awst 2017

Annwyl David

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 31 Gorffennaf ynglŷn â Deiseb P-05-770 i ailagor Gorsaf Reilffordd Crymlyn.

Er inni ofyn i fwy o feysydd gael eu datganoli i Gymru, Llywodraeth y DU sy'n parhau i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gyllido seilwaith y rheilffyrdd. Rydym, fodd bynnag, yn defnyddio ein pwerau i hwyluso datblygiad y gorsafoedd rheilffyrdd. Drwy wneud y gwaith hwn, rydym yn creu sefyllfa lle mae gan orsafoedd gynigion yn barod iddynt fedru elwa ar alwadau am geisiadau am gyllid.

Mae fy llythyrau diweddar at Aelodau'r Cynulliad yn esbonio'r broses yr ydym yn ei dilyn i asesu safleoedd posibl. Rydym bellach wedi cychwyn ar gam cyntaf y rhaglen waith hon, a'r gorsafoedd rhanbarthol a gafodd eu dewis i'w hasesu ymhellach yw'r rheini a gafodd y sgoriau uchaf ar draws yr holl feini prawf. Ar ôl i'r safleoedd blaenoriaeth hyn gael eu hasesu yng Ngham 2, bydd y rheini sy'n debygol o gyflwyno achos busnes cadarn yn symud ymlaen at Gam 3 lle y bydd y cynnig yn cael ei ddatblygu yn fanylach.

Wrth weithio ar Gam 3, byddwn hefyd yn asesu'r grŵp nesaf o orsafoedd sydd ar restr Cam 1. Rhagwelwn y byddwn yn dechrau'r gwaith hwn yn gynnar yn 2018. Yn ein hasesiad cychwynnol, sgoriodd Gorsaf Crymlyn yn dda ar sail y meini prawf ar gyfer achos trafndiaeth. Gan fod y broses asesu yn un barhaus ac ailadroddol, bydd Crymlyn yn cael ei asesu yn y pen draw ynghyd â'r gorsafoedd eraill sydd ar y rhestr.

Yn gywir

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**P-05-770 Reopen Crumlin Railway Station – Correspondence from the
Petitioner to the Committee, 31.08.17**

Dear Kayleigh Imperato,

Thank you for the information and opportunity to expand on this petition.

I'm attaching further information as requested.

It is a brief document taken from several sources outlining the case for the re-opening of a train station in Crumlin.

I hope the committee find it useful when they consider my petition.

I'd also like to take this opportunity to invite the committee or a representative from amongst them to come to Crumlin to see the site itself.


Yours,

Cllr Mike Davies

Re:- Reopening Crumlin Train Station

The re-opening of a train station in Crumlin has been under consideration for many years. The scheme originally developed by SEWRTA to re-open the Ebbw Valley railway for passenger services did include a new station at Crumlin but this was not taken forward at that time as the resources available were focussed on providing the core valley rail service. Since that time the South East Wales Metro scheme (SESM) has been fully developed, now including a number of cross valley links and connections. Crumlin's key location clearly provides the main multi-modal interchange point between the enhanced Ebbw lines rail services and the main mid-valley Regional Bus Rapid Transport Route. Unlike most of the other stations on this line whose overall footprints are severely restricted, the proposed Crumlin station benefits from being situated away from the location of the original Crumlin low level station site and on the Old Navigation Colliery Site instead. This location has space for a full multi-modal interchange with adequate capacity for bus dwell time and a substantial car park with good access to the main highway network. It also has good highway access to the existing major employment locations of Oakdale and Croespenmaen business parks. Addressing the infrastructure issues at Crumlin and enhancing public transport would also allow consideration of a sustainable solution to the blight of air pollution in the locality with it having the most air polluted community outside of London.

The reopening of the train station would not only enhance transport options but would also provide the catalyst for regeneration of the whole site. Navigation Colliery is a landmark group of buildings over a century old located in Crumlin, Caerphilly. Built between 1907 and 1911, the site was designed as a "model colliery", benefitting from high quality construction materials and cutting edge machinery. It was one of the first collieries in Wales to be made primarily out of brick rather than stone. Although the mine ceased production in 1967, the pit head buildings and chimney stack are still standing and strikingly dominate the valley landscape.



The colliery site is a mixture of 15 Grade II and Grade II* listed buildings and structures set over 4HA of land. CADW regard the site as the most important group of colliery buildings in Wales, describing them as "*a nearly complete colliery complex of national importance*".

The buildings are gradually deteriorating from environmental conditions. Many of these once proud buildings are now in a

state of advanced disrepair and urgent regeneration action is needed before nature claims the site forever.

A fully restored and regenerated Colliery site, with the buildings brought back into beneficial use, has the potential to be a truly transformative project with significant social, cultural and economic benefits to its surrounding rural communities and neighbouring regions.

The Navigation site is currently under the ownership of the South Wales Building Preservation Trust (SWBPT) who acquired the lease in 2011, supported by a local community Trust, Glofa Navigation Cyf, and the Friends of the Navigation community group. A project working group,


including Caerphilly County Borough Council's Urban Renewal Team, Cardiff Metropolitan University and the Prince's Regeneration Trust has been convened to work alongside SWBPT, Glofa and the Friends group to develop and drive forward a restoration Action Plan for the site.

The site could become a thriving centre for tourism and leisure. It's historical significance and the proximity to biking and walking opportunities makes it an ideal location for developing a range of leisure facilities, including accommodation and exhibition space. Crumlin would be seen as a place to visit and enjoy and not just a location to travel from.

The project also has the potential to significantly contribute to each of the 4 main themes outlined in the Cardiff Capital City Region strategic vision "Powering the Welsh Economy".

- *Connectivity: Deliver an integrated infrastructure which allows an effective, efficient and sustainable movement of people, goods and information, regionally, nationally and internationally.*
- *Skills: Our Region and our people are recognised globally for having the skills for life that meet the needs of our businesses and our communities.*
- *Innovation and growth: Support a thriving business community with international recognition, driven by an entrepreneurial culture and leading academic research.*
- *Identity: Build a vibrant and internationally recognised Cardiff Capital Region synonymous with quality of life.*

The Valleys Metro is a priority backbone project within the City Region strategy and the 2013 "Metro Impact Study" sets out the potential regeneration opportunities arising from the Metro routes and hubs, focussing on a number of key spatially targeted areas of investment, including the Ystrad Mynach Corridor as well as delivering benefits to nearby Blaenau Gwent and Torfaen. (Crumlin area indicated by red circle in image below)



Crumlin's key location provides the main multi-modal interchange point between the enhanced Ebbw Valley Rail (EVR) lines rail services and the main mid-valley Regional Bus Rapid Transport route (BRT). The proposed park and ride facility, if progressed, would be constructed within the southern end of the colliery site, which would place the project directly within a key strategic regional transport hub - unlocking significant investment and regeneration opportunities.

Previous feasibility studies identified a range of options to take the forward to design and implementation stage with a suite of mixed use options including arts, creative industries, heritage, cultural and learning, as set out below:

- Residential;
- Commercial / Industrial Floorspace;
- Office Accommodation;
- Hotel;
- Bunkhouse Accommodation
- Pub / Restaurant;
- Children's Play Space;
- Museum;
- Tourism / Heritage;
- Recreation Space / Trails;
- Community / Education;
- Artist Studios & Exhibition Space.

If the infrastructure issues were addressed, including the creation of a train station, some of the vacant land could be sold for development. This, coupled with the renewable energy plans for the site, have the potential to provide sustainable housing. The site also has the potential to be self-sufficient in green energy and possible become a net exporter via a proposed hydro-electric scheme being taken forward by the community interest company Crumlin Hydro CBC. There is also the potential for heat extraction from the South Wales Coalfield.

In addition, representatives from Cardiff Metropolitan University have identified the colliery site and buildings as a possible location for a regional Building Academy, with significant potential to establish itself as a flagship destination for innovation, research and educational provision.

It is considered that due to the size of the Navigation Colliery Complex and the buildings within it, accommodating one single use on the site would be difficult and may not present the most viable and sustainable option for the site.

Given the vast potential floor-space afforded by the Colliery buildings and the surrounding 4HA of land, the site, once restored, has the potential to accommodate a wide range of end uses across a variety of sectors.



Due to the size of the complex and the need to be pragmatic in approach, it is considered that a mix of the uses considered would create the most viable and sustainable site going forward. In order to realise some capital receipt from the site to assist in the renovation / conversion of the historic buildings, one possible option could

be to offer at least part of the site to the market for subsequent development.

In light of the huge potential of the site, and the range of economic activities and sectors the buildings could accommodate, future investment may be secured from a variety of sources:

- Heritage Lottery Fund
- Big Lottery Fund
- Coalfields Regeneration Trust
- European Structural Investment Funds
- Landfill Tax Scheme
- CADW
- Trusts and Foundations
- Welsh Government
- Private Sector

P-05-772 Na i Gylch Haearn arfaethedig Castell y Fflint

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Gerwyn David Evans, ar ôl casglu 11,091 o lofnodion ar-lein.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i wrthod y cynlluniau arfaethedig o adeiladu Cylch Haearn y tu allan i Gastell y Fflint gan ein bod yn ymwybodol iawn o arwyddocâd hanesyddol Edward I a'i Gylch Haearn, a ddefnyddiwyd i ddarostwng a llethu ein pobl.

Rydym o'r farn bod hyn yn arbennig o amharchus i bobl Cymru a'n hynafiaid sydd wedi brwydro yn erbyn gorthrymder, darostyngiad ac anghyfiawnder am gannoedd o flynyddoedd.

Gofynnwn ichi ailfeddwl y penderfyniad i adeiladu'r heneb hon a defnyddio'r arian ar gyfer rhywbeth arall.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Rhondda
- Canol De Cymru

Deiseb y Cylch Haearn

Y Pwyllgor Deisebau | 19 Medi 2017
Petitions Committee | 19 September 2017

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Teitl y ddeiseb: Na i Gylch Haearn arfaethedig Castell y Fflint

Testun y ddeiseb:

"Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i wrthod y cynlluniau arfaethedig o adeiladu Cylch Haearn y tu allan i Gastell y Fflint gan ein bod yn ymwybodol iawn o arwyddocâd hanesyddol Edward I a'i Gylch Haearn, a ddefnyddiwyd i ddarostwng a llethu ein pobl.

Rydym o'r farn bod hyn yn arbennig o amharchus i bobl Cymru a'n hynafiaid sydd wedi brwydro yn erbyn gorthrymder, darostyngiad ac anghyfiawnder am gannoedd o flynyddoedd.

Gofynnwn ichi ailfeddwl y penderfyniad i adeiladu'r heneb hon a defnyddio'r arian ar gyfer rhywbeth arall."

Cefndir

Ar 21 Gorffennaf, [cyhoeddodd](#) Llywodraeth Cymru ei chynlluniau ar gyfer prosiect £630,000 yng Nghastell y Fflint a'r blaendraeth, gan gynnwys gosod cerflun o'r enw y Cylch Haearn. Cafodd y dyluniad hwn ei ddewis gan banel o Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, yn dilyn cystadleuaeth am gynigion ar gyfer cysyniad celfyddydol i ddathlu Blwyddyn Chwedlau Llywodraeth Cymru.

Byddai'r Cylch Haearn yn costio £395,000 a gallai fod hyd at 7 metr o uchder a 30 metr o led. Dywedodd y Llywodraeth Cymru y byddai'n cael ei gerfio gyda "geiriau a dywediadau priodol a fydd yn cael eu datblygu gan y gymuned leol". Byddai ymwelwyr yn gallu cerdded ar hyd y cerflun a mwynhau golygfeydd o'r castell ac ar draws yr aber.

Dywedodd George King Architects, a ddyluniodd y Cylch Haearn:

Mae'r cerflun yn symboleiddio coron rydlyd enfawr yn cynrychioli'r berthynas agos rhwng breniniaethau canoloesol Ewrop a'r cestyll a adeiladwyd ganddynt. Mae ffurf ansicr y cerflun, gyda'i hanner wedi'i gladdu o dan y ddaear, a'r hanner arall yn ymwthio i'r awyr, yn adlewyrchu natur

anefydlog y goron. Mae ei leoliad yng Nghastell y Fflint yn nodi'r fan enwog lle y trosglwyddwyd y goron o un llinach ganoloesol i un arall, fel y disgrifiodd Shakespeare yn Richard II. Castell y Fflint yw'r lleoliad yr ildiodd Richard II y goron i Harri IV, digwyddiad pwysig a ddylanwadodd ar hanes Prydain ac Ewrop.

Maent yn ymhelaethu:

Mae'r Cylch Haearn wedi'i gynllunio'n ofalus i weithio ar sawl graddfa. O bell, mae ei ffurf drawiadol ac eiconig yn ymdebygu i arteffact hynafol enfawr sydd wedi golchi ar lan aber Afon Dyfrdwy. Mae ei faint a'i ffurf ddeinamig, wedi'u hategu gan oleuadau LED, yn golygu y daw'n adnabyddus iawn yn nhirlun yr ardal. Fodd bynnag, wrth i chi agosáu at y cerflun daw'n amlwg bod y darn yn fwy na cherflun. Mae tramwyfa wedi'i cherfio allan o'r cylch mawr, gan ganiatáu i ymwelwyr deithio ar hyd ei gylchedd. Mae'r llwybr graddol yn eich codi uwchben y ddaear, gan gynnig golygfeydd o'r aber a Chastell y Fflint. Wrth edrych yn fanylach, gallwch weld cerfiadau cywrain ar hyd ochrau'r dramwyfa. Mae un ochr cyfan i'r llwybr yn cynnwys dyfyniad eiconig o Richard II gan Shakespeare wrth i'r brenin ystyried ildio ei orsedd.

Ar yr ochr arall, mae'r llwybr yn troi'r cylch yn gwmpawd mawr, gydag enwau a chyfeiriad y cestyll eraill sy'n rhan o'r Cylch Haearn, a manylion am eu straeon a chwedlau eu hunain sy'n creu cysylltiad rhyngddynt a'r Fflint i annog ymwelwyr i ymweld â'r cestyll eraill yn y cylch.

Ymateb

Cafodd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru gryn dipyn o feirniadaeth (er enghraifft, yr [erthygl](#) hon ar wefan Nation.Cymru, a'r ddeiseb sydd ynghlwm). Roedd y feirniadaeth yn canolbwyntio ar y canfyddiad bod y Cylch Haearn arfaethedig yn dathlu'r 'Cylch Haearn' o gestyll yr adeiladodd Edward I fel rhan o'i ymgyrch filwrol yng Nghymru. Ar 26 Gorffennaf, dywedodd Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:

Rydym wedi gwrandao ac yn cydnabod cryfder y teimladau ynghylch y gosodiad celf arfaethedig yng Nghastell y Fflint ac yn teimlo ei bod yn briodol inni gymryd saib ac adolygu'r cynlluniau ar gyfer y cerflun. Gan weithio'n agos gyda phartneriaid lleol, byddwn yn parhau i weithio ar gynigion ar gyfer datblygiadau yn y Fflint, gan gynnwys adolygu cyfleusterau newydd i ymwelwyr.

Ar 7 Medi, [cyhoeddodd](#) Llywodraeth Cymru na fyddai'n bwrw ymlaen â cherflun y Cylch Haearn. Dywedodd Ken Skates AC:

Rydyn ni'n cydnabod bod y cynnig ar gyfer cerflun y Cylch Haearn wedi rhannu barn ac yn dilyn cyfarfodydd hynod adeiladol a chynhyrchiol â rhanddeiliaid lleol, rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r dyluniad dan sylw. Byddwn yn defnyddio'r arian oedd wedi'i neilltuo ar gyfer y gwaith celf i gynnal yr uwchgynllun ehangach ar gyfer y blaendraeth, yn unol â barn pobl leol. Bydd hynny'n cynnwys buddsoddi cyfalaf mewn nifer o brosiectau yn yr ardal a chynnal nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau i gynyddu dealltwriaeth o hanes y Castell ac arwyddocâd y blaendraeth. Fel Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Tref y Fflint, rydym am roi blaenoriaeth uchel i ddatblygu'r uwchgynllun.”

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

P-05-692 – Adeiladu Cofeb Mamieithoedd Rhyngwladol ym Mae Caerdydd

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mohammed Sarul Islam ar ôl casglu 16 llofnod.

Geiriad y ddeiseb

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gymell Llywodraeth Cymru i adeiladu cofeb leithoedd Rhyngwladol ym Mae Caerdydd ar gyfer pawb sy'n caru mamieithoedd ledled y byd.

Gwybodaeth ychwanegol

Cafodd plac ei osod gan Arglwydd Faer Caerdydd yn 2012 ym Mharc Grange Moor, Bae Caerdydd. Ond o ganlyniad i ddiffyg cyllid ni chafodd ei hadeiladu.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KS/01864/17
Mike Hedges AM
Chair - Petitions Committee
National Assembly for Wales
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

17 June 2017

Dear

Thank you for your letter regarding a petition to build an International Mother Languages Monument at Cardiff Bay. I recall similar correspondence from Mohammed Sarul Islam last year and I am aware of the petition to build an International Mother Languages Monument in Cardiff Bay. We are, however, in a similar position to last year where there are currently no funding streams available which could accommodate this request. It is also unclear from the petition whether there is wider community support for the monument.

I know the Leader of the House and Chief Whip recently attended a Gala Dinner, hosted by the International Language Monument Project Committee. In his letter Mr Islam refers to a financial commitment from Welsh Labour to support the monument. Ms Hutt's Private office has confirmed that, while she indicated at the event that she was supportive of the initiative in principle, she did not commit to any financial support for it from the Welsh Government.

The Welsh Government is continuing to deliver against our Community Cohesion Programme, including through the work of eight Regional Community Cohesion Co-ordinators who are active and engaged at a local level with partners across communities. We recognise the importance of diversity and working with partners to increase engagement and break down any perceived barriers. Our approach is underpinned by the goals set out in the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act around a Wales of cohesive communities and a Wales of vibrant culture and thriving Welsh language.

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
